

Gwasanaeth Tân ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales
Fire and Rescue Service

# CYNLLUN CORFFORAETHOL

2021 - 2026

www.tancgc.gov.uk

# Fersiynau Amgen

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael mewn fformatau hygyrch. Os hoffech gael yr wybodaeth hon mewn fformat neu iaith amgen, gan gynnwys ar ffurf sain, cysylltwch â ni ar: 0370 6060699 neu drwy e-bost: mail@mawwfire.gov.uk.

**Arabic**

هذه الوثيقة متوفرة ايضا بطرق تسهل قراءتها، لو تريد هذه المعلومه بلغة أخرى أو بشكل اخر، اضافة بطريقة مسموعة، المرجوا التواصل معنا عبر 03706060699 او عبر البريد الالكتروني : mail@mawwfire.gov.uk

**Chinese**

该文档也备有无障碍格式版。如果您需要信息通过不同语言或格式提供，包括语音版本，请拨打 0370 60 60 699 或电邮到 mail@mawwfire.gov.uk 跟我们联系。

**Nepali**

*यो दस्तावेज अन्य सजिला फर्मेटहरूमा पनि उपलब्ध छ। यदि तपाईं यो जानकारी अडियोसमेत अन्य वैकल्पिक भाषा वा फर्मेटमा चाहनुहुन्छ भने कृपया हामीलाई फोन नं.: 0370 6060699 वा ईमेल: mail@mawwfire.gov.uk मा सम्पर्क गर्नुहोस्।*

**Polish**

*Istnieje również możliwość uzyskania niniejszego dokumentu w dostępnych formatach. Jeśli chce Pan/Pani otrzymać niniejsze informacje w innym języku lub formacie, w tym w wersji dźwiękowej, prosimy o skontaktowanie się z nami telefonicznie: 0370 6060699 lub drogą mailową: mail@mawwfire.gov.uk.*

**Punjabi**

"ਇਹ ਦਸਤਾਵੇਜ਼ ਪਹੁੰਚਯੋਗ ਫਾਰਮੈਟਾਂ ਵਿਚ ਵੀ ਉਪਲਬਧ ਹੈ. ਜੇ ਤੁਸੀਂ ਇਹ ਜਾਣਕਾਰੀ ਕਿਸੇ ਵਿਕਲਪਿਕ ਭਾਸ਼ਾ ਜਾਂ ਫਾਰਮੈਟ ਵਿਚ ਚਾਹੁੰਦੇ ਹੋ, ਜਿਸ ਵਿਚ ਆਡੀਓ ਵੀ ਸ਼ਾਮਲ ਹੈ, ਕਿਰਪਾ ਕਰਕੇ ਸਾਡੇ ਨਾਲ ਸੰਪਰਕ ਕਰੋ: 0370 6060699 ਜਾਂ ਈਮੇਲ: ਮੇਲ@mawwfire.gov.uk."

**Urdu**

یہ دستاویز قابل رسائی شکلوں میں بھی دستیاب ہے۔ اگر آپ یہ معلومات آڈیو سمیت کسی متبادل زبان یا شکل میں چاہتے ہیں تو ، براہ کرم ہم سے رابطہ کریں: 0370 6060699 یا ای میل: میل mail@mawwfire.gov.uk پر۔"

# Cynnwys

**Cyflwyniad**

Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru 6

Y Bwrdd Gweithredol 14

Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru 16

Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru a'r Gyfraith 20

Ein Cynlluniau 24

Sut yr ydym yn perfformio? 26

Targedau Perfformiad 2021/22 36

**Datblygu ein Cynllun Corfforaethol 38**

**Nodau Strategol 40**

- Ein Pobl 42
- Ein Cymunedau 54
- Ein Hamgylchedd 66
- Ein Dysgu 78

**Rhagor o wybodaeth 90**

# Cyflwyniad

Mae'n bleser gennym gyflwyno ein Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2021-2026, sy'n nodi ein gweledigaeth ar gyfer y dyfodol, sef "bod yn arweinydd byd o ran Ymateb i Argyfyngau a Diogelwch Cymunedol". Rydym yn hyderus y bydd ein Nodau Strategol a'n Hamcanion Gwella a Llesiant yn ein galluogi i gyflawni ein dyletswyddau statudol a chyfrannu at ofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Er gwaethaf cyfyngiadau cyllidebol, rydym wedi parhau i gynnal lefel ragorol o wasanaeth, sydd wedi sicrhau bod cymunedau Canolbarth a Gorllewin Cymru yn parhau'n lleoedd diogel i fyw a gweithio ynddynt ac i ymweld â nhw.

Mae'r pandemig COVID-19 wedi golygu heriau sylweddol ar gyfer y Gwasanaeth Tân ac Achub, gan arwain at newidiadau sefydliadol yn cael eu cyflawni mewn diwrnodau ac wythnosau yn hytrach na misoedd. Rydym yn dal i ddysgu o effaith y pandemig er mwyn sicrhau nad effeithir ar ein hymateb gweithredol lle bo hynny'n bosibl. Rydym am barhau i ddatblygu'r meysydd hyn er mwyn iddynt gael effaith gadarnhaol ymhell i'r dyfodol. Er enghraifft, mae mwy o ddefnydd o dechnoleg wedi ei gwneud yn bosibl i lawer llai o deithiau gael eu gwneud ar gyfer y gwaith, gan gyfrannu at ein targedau cynaliadwyedd hirdymor, lleihau risgiau ar y ffyrdd, a chynyddu capasiti yn y gweithle. Fel sefydliad sy'n dysgu, byddwn yn ymdrechu





i gymhwyso'r wybodaeth a'r profiadau newydd hyn ledled ein Gwasanaeth er mwyn sicrhau cynnydd a gwelliant yn y dyfodol.

Rydym wedi ymrwymo i addasu i'r heriau hyn mewn ffordd gadarnhaol, ac mae ein Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2021-2026 yn nodi ein Nodau Strategol a'n Hamcanion Gwella a Llesiant ar gyfer y pum mlynedd nesaf. Credwn fod cydweithredu yn allweddol i ddyfodol ein gwasanaethau brys er mwyn cyflawni canlyniadau a rennir yn llwyddiannus, gan ein galluogi i wella'r ffordd yr ydym yn gweithio ac yn rhannu adnoddau; gan achub rhagor o fywydau yn y pen draw.

Rydym hefyd wedi ymrwymo i ddod o hyd i atebion arloesol i wella'r modd yr ydym yn gweithio, gwella diogelwch y Diffoddwyr Tân, lleihau ein heffaith ar yr amgylchedd, ac, yn y pen draw, cyfrannu at lesiant ein cymunedau.

Rydym yn cydnabod bod gwrando ar eich barn yn hollbwysig er mwyn i ni barhau i ddarparu gwasanaeth effeithiol, effeithlon a gwell i'ch cadw chi a'ch teuluoedd yn ddiogel. Anogwn bob un ohonoch i roi gwybod i ni beth yw eich barn am ein Nodau Strategol a'r Amcanion Gwella a Llesiant yr ydym yn ymrwymo iddynt ar gyfer 2021-2026.


# Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Crëwyd y Gwasanaeth yn 1996 o ganlyniad i Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994, a hynny wedi i Frigadau Tân Dyfed, Powys a Gorllewin Morgannwg uno.

Mae yna amrywiaeth eang o risgiau yn bodoli yn ardal y Gwasanaeth, gan amrywio o'r diwydiannau petrocemegol yn Aberdaugleddau, i'r risgiau sy'n gysylltiedig ag ardaloedd poblog megis Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot.

Mae yna hefyd gymuned ffermio helaeth a llawer o ddiwydiannau ysgafn eraill ledled yr ardal. Mae'r rhain, ynghyd â morlin helaeth a dyfrffyrdd mewndirol, yn cyfrannu at rai o'r risgiau arbenigol sy'n bodoli yn y Gwasanaeth.

Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yw trydydd Gwasanaeth Tân mwyaf y Deyrnas Unedig, y tu ôl i Wasanaethau Tân ac Achub yr Alban a Gogledd Iwerddon.


Key
M01 Station Number
On Call Station
Day Crewed / On Call Station
Wholetime Station
Wholetime / On Call Station
Volunteer Station
Llanfyllin M06
Welshpool M04
Llanfair Caereinion M05
Machynlleth M02
Montgomery M03
Newtown M01
Borth M27
Llanidloes M07
Aberystwyth M21
Knighton M08
Rhayader M09
Llandrindod Wells M13
Presteigne M17
Aberaeron M24
New Quay M23
Tregaron M22
BuilthWells M14
Lampeter M25
Llanwrtyd Wells M15
Cardigan M26
Hay on Wye M16
Newcastle Emlyn M67
Llandysul M68
Fishguard M33
Crymych M38
Talgarth M18
Llandovery M70
Brecon M10
St. Davids M34
Carmarthen M62
Llandeilo M69
Crickhowell M12
Haverfordwest M31
Whitland M71
Narberth M35
Abercrave M11
Ammanford M65
Tumble M66
Pontiets M64
Kidwelly M63
Milford Haven M32
Pembroke Dock M36
Tenby M37
Llanelli M61
Caldey Island M39
M52 Glynneath
Reynoldson M43
M53 Cymmer
Gorseinon M41
M55 Seven Sisters
Pontardulais M42
M51 Neath
Swansea West M46
M54 Port Talbot
Morriston M44
M56 Pontardawe
Swansea Central M45
M57 Amman Valley

# Amdanom ni:

rydym yn gwasanaethu



**4500**
cilometr sgwâr
(11,700 km²)

gyda phoblogaeth o

**910,027**

yn byw mewn

**431,437**
o gartrefi

cydymffurfio

**58**
o orsafoedd tân

gyda

**1351**
o staff

**400**
Llawn amser

**709**
Ar alwad

**22**
Canolfan rheoli tân ar y cyd

**220**
Staff cynorthwyol

# Yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf

01/04/2015 i 31/03/2020



**2811**
tanau cartrefi



**4863**
o wrthdrawiadau traffig ffyrdd



**1719**
o ddigwyddiadau llifogydd



**12,496**
o ddigwyddiadau ymateb meddygol

wedi cynnal

**85,682**

o archwiliadau diogelwch rhag tân yn y cartref

wedi ymgysylltu â

**184,401**

o blant a phobl ifanc trwy ein rhaglenni addysg

**10,978**

o ymweliadau

ac archwiliadau Diogelwch Tân Busnesau

**164,403**

o alwadau brys

yn ein Canolfan Rheoli Tân ar y Cyd

**24**

o drefniadau rhannu safleoedd

gyda sefydliadau partner

## cost hyn oll? dim ond

| **14p** | **£4** | **£52** |
|---|---|---|
| y dydd | y mis | y flwyddyn |

# Ein Cyllideb

**Ni ellir osgoi'r ffaith y bydd yr hinsawdd ariannol yr ydym yn gweithio ynddi yn parhau i roi pwysau ychwanegol ar lefelau'r gwasanaeth a ddarparwn wrth i ni ymestyn ein hadnoddau ymhellach eto.**

Felly, byddwn yn parhau i chwarae ein rhan yng ngostyngiadau'r gyllideb yn y dyfodol, a hynny trwy gynnal trafodaeth agored, barhaus â'r staff a'r cyhoedd ynghylch y modd y gallwn barhau i wneud gwelliannau a sicrhau effeithlonrwydd yn y dyfodol.

## Ein cyllideb ar gyfer 2021/22 yw

# £54,036,940

Cyflogeion Gweithredol
**£31,516,600**

Costau Cymorth Anweithredol
**£8,803,300**

Cyflenwadau a Gwasanaethau, gan gynnwys yswiriant
**£4,966,340**

Ariannu Cyfalaf a Lesio
**£4,590,000**

Adeiladau
**£2,661,300**

Cludiant
**£2,153,400**

Incwm
**£654,000**

# Y Bwrdd Gweithredol

Y Bwrdd Gweithredol yw Uwch-dîm Rheoli y Gwasanaeth, dan arweiniad y Prif Swyddog Tân, wedi'i gefnogi gan y Dirprwy Brif Swyddog Tân, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol a Phrif Swyddog Cynorthwyol.



Chris Davies *QFSM MBA*
*Prif Swyddog Tân*




Roger Thomas
*Dirprwy Brif Swyddog Tân*




Iwan Cray
*Prif Swyddog Tân Cynorthwyol*




Kevin Jones
*Prif Swyddog Cynorthwyol*



# Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mae Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn cynnwys 25 o aelodau etholedig sy'n cynrychioli'r chwe Awdurdod Lleol yn ardal Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Maent yn atebol i'r cyhoedd, ac mae ganddynt gyfrifoldeb statudol i gynnal gwasanaeth tân ac achub ar gyfer ein cymunedau, yn unol â'r ddeddfwriaeth a'r rheoliadau a ganlyn:

- Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994.
- Gorchymyn (Cynllun Cyfunol) Canolbarth a Gorllewin Cymru 1995.
- Deddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004.
- Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005.
- Gorchymyn Cynlluniau Cyfunol y Gwasanaethau Tân ac Achub (Amrywio) (Cymru) 2009.
- Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.
- Fframwaith Cenedlaethol y Gwasanaethau Tân ac Achub 2016.
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.



Cadeirydd Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru

**Y Cyng. Jan Curtice – Llafur**

22 Heol Dyffryn, Gorseinon,

Abertawe, SA4 6BB.

Cllr.Jan.Curtice@swansea.gov.uk

Cymraeg



Dirprwy Gadeirydd Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru

**Y Cyng. Elwyn Williams – Plaid Cymru**

Cystanog, Capel Dewi Road,
Carmarthen, SA32 8AY.

DEWilliams@carmarthenshire.gov.uk

Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth am y Gwasanaeth, yr Awdurdod Tân a chyfrifoldebau ein Bwrdd Gweithredol trwy edych ar ein gwefan **www.tancgc.gov.uk**

ein gweledigaeth:

## Bod yn arweinydd byd ym maes ymateb i argyfwng a diogelwch cymunedol.

ein cenhadaeth:

## Ymgysyllu, cysylltu, datblygu ac Ysbrydoli pobl i ddarparu Gwasanaeth rhagorol.

www.tancgc.gov.uk

ein gwerthoedd:

Gwneud y peth iawn.

Trin pobl a pharch.

Perfformio'n rhagorol.

ein nodau strategol:

**Ein Pobl**

**Ein Cymunedau**

**Ein Hamgylchedd**

**Ein Dysgu**

## Gweithio tuag at ein 4 nod Strategol a'n Hamcanion Gwella a Llesiant yn 2021 - 2026.

# Ein Cynlluniau

## Y Cynllun Corfforaethol

Mae ein Cynllun Corfforaethol yn nodi ein gweledigaeth ar gyfer y dyfodol, a'r modd y cyflawnir y weledigaeth honno trwy ein Nodau Strategol a'n Hamcanion Gwella a Llesiant.

https://www.mawwfire.gov.uk/eng/about-us/our-plans-and-performance/

## Asesiadau Perfformiad Blynyddol

Erbyn diwedd mis Hydref bob blwyddyn, byddwn yn cyhoeddi ein Hasesiad Perfformiad Blynyddol. Mae ein Hasesiad Perfformiad Blynyddol yn dweud wrth ein staff, ein cymunedau a'n rhanddeiliaid pa ganlyniadau a buddion a gyflawnwyd o gymharu ag Amcanion Gwella a Llesiant y flwyddyn flaenorol. Mae ein Hasesiad Perfformiad Blynyddol hefyd yn nodi sut yr ydym wedi cyfrannu at y nodau Llesiant a bennir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

https://www.mawwfire.gov.uk/eng/about-us/our-plans-and-performance/

## Y Cynllun Cydraddoldeb Strategol

Mae ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn cyfleu ymrwymiad parhaus yr Awdurdod a'r Prif Swyddog Tân i hyrwyddo cyfleoedd cyfartal ledled holl swyddogaethau, polisïau, arferion a gweithdrefnau Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, ac yn nodi'r modd y bydd y Gwasanaeth yn ceisio cyflawni'r ymrwymiad hwn. Ein nod yw creu amgylchedd sy'n rhoi cyfle cyfartal i bawb weithio, dysgu a byw, a hynny heb wahaniaethu na rhagfarn.

https://www.mawwfire.gov.uk/media/4110/jr1008-strategic-equality-plan-20_eng.pdf

## Y Cynllun Cynaliadwyedd a'r Amgylchedd

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi ymrwymo i goleddu Cynaliadwyedd wrth ddarparu Gwasanaeth rhagorol. Bwriadwn wneud hyn trwy leihau'r defnydd o ynni, gweithio tuag at ddim gwastraff yn cael ei anfon i safleoedd tirlenwi, a lleihau ein hôl troed carbon ledled y Gwasanaeth o flwyddyn i flwyddyn.
Mae ein Strategaeth Cynaliadwyedd a'r Amgylchedd yn nodi'r prif egwyddorion, cynigion a chamau gweithredu gofynnol i leihau effeithiau gweithgareddau a gweithrediadau'r Gwasanaeth ar yr amgylchedd. .

https://www.mawwfire.gov.uk/eng/about-us/sustainability-and-the-environment/

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

# Y Gymraeg

Safonau'r Gymraeg

Fel Gwasanaeth, rydym yn cael ein llywodraethu gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, a rhaid i ni gydymffurfio â set o Safonau'r Gymraeg a osodwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg.

Mae'r rhain yn cynnwys mynd ati i hyrwyddo'r Gymraeg a sicrhau nad yw'n cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mewn ymateb i'n Hysbysiad Cydymffurfio statudol sy'n nodi'r 171 o safonau a osodwyd ar Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru o fis Mawrth 2017, cyhoeddodd yr Awdurdod gynllun gweithredu yn nodi'r modd yr oedd yn bwriadu cydymffurfio â'r Safon.

Mae'r Awdurdod bellach yn llunio adroddiadau monitro blynyddol sy'n ymdrin â'r ffordd yr ydym wedi cydymffurfio â'r Safonau.

https://www.tancgc.gov.uk/cym/amdanom-ni/safonau-r-gymraeg/



www.tancgc.gov.uk

# Datganiad Llesiant

Well-being of Future Generations (Wales)
Act 2015

Rydym wedi ymrwymo i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ac rydym wedi coleddu ein dyletswyddau a'n rôl fel partner statudol ledled ein chwe Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Rydym yn deall diben a nod y Ddeddf ac rydym wedi ymrwymo i sicrhau ein bod yn ystyried effaith hirdymor ein penderfyniadau ar y cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu.

Mae ein Cynllun Strategol ar gyfer 2021-2026 yn amlinellu ein Nodau Strategol ar gyfer y pum mlynedd nesaf, yn ogystal â'n Hamcanion Gwella a Llesiant ar gyfer 2021/22. Rydym wedi sicrhau bod ein Hamcanion Gwella a Llesiant wedi cael eu llunio yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, a'u bod yn cynnwys y pum ffordd o weithio.

Lluniwyd ein Hamcanion Gwella a Llesiant trwy gyfres o weithdai gyda'n staff, Aelodau Etholedig a Chyrff Cynrychioliadol, a chawsant hefyd eu hystyried gan Bwyllgorau Craffu y Cyngor yn rhan o'r cyfnod ymgynghori ehangach. O ganlyniad i'r broses ymgynghori, rydym yn hyderus bod ein Hamcanion Gwella a Llesiant ar gyfer 2020/22 yn cyfrannu at ofynion y Ddeddf.

Yn y Cynllun hwn trwyddo draw, rydym yn amlygu'r modd y mae ein Hamcanion Gwella a Llesiant yn cyfrannu at y saith Nod Llesiant, gan ddangos y modd y mae pob un yn ein helpu i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

Felly, wrth i ni wneud penderfyniadau, byddwn yn sicrhau ein bod yn rhoi ystyriaeth i'r effaith y gall y penderfyniadau ei chael ar y bobl sy'n byw eu bywydau yng Nghymru 'nawr ac yn y dyfodol. Byddwn hefyd yn cofio rhoi ystyriaeth i'r amrywiaeth gyfoethog o bobl sydd yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru, ac yn parhau i gydweithredu ag eraill i helpu'r Awdurdod i gyflawni ei Amcanion ac, i'r gwrthwyneb, i helpu eraill i gyflawni eu hamcanion nhw.

Egwyddor Datblygu Cynaliadwy.

# Hirdymor

**Pwysigrwydd cydbwyso anghenion byrdymor â'r angen i ddiogelu'r gallu i fodloni anghenion hirdymor hefyd.**

## Beth yr ydym yn ei wneud i gyflawni'r egwyddorion hyn?

Byddwn yn parhau i ystyried tueddiadau hirdymor a dadansoddi ein gweithredoedd, a hynny er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau yr ydym yn eu darparu yn rhagweithiol yn hytrach nac ymatebol, gan felly ddiwallu anghenion ein cymunedau a'n rhanddeiliaid yn well trwy sicrhau bod ein cymunedau mor ddiogel â phosibl, a pheidio â thanseilio anghenion cenedlaethau'r dyfodol. Rydym wedi ymgorffori syniadau hirdymor yn ein harferion busnes a'n Hamcanion Gwella a Llesiant, a byddwn yn parhau i fabwysiadu dull o graffu ar y gorwel yn rhan o'n prosesau cynllunio.

Wrth bennu ein Hamcanion Gwella a Llesiant, rydym wedi sicrhau bod popeth mewn golwg a'n bod yn monitro tueddiadau yn y dyfodol a heriau hirdymor a fydd yn cael effaith andwyol ar y gwasanaethau yr ydym yn eu darparu. Byddwn yn parhau i addasu ac arallgyfeirio ein gweithgareddau i fodloni anghenion ein cymunedau yn well, yn ogystal â gwella'r ffordd yr ydym yn diwallu anghenion y bobl sy'n gweithio ac yn byw yn ein cymunedau ac sy'n ymweld â nhw, er mwyn sicrhau eu bod yn fwy diogel.

**Egwyddor Datblygu Cynaliadwy.**

# Atal

**Atal problemau rhag digwydd neu waethygu.**

## Beth yr ydym yn ei wneud i gyflawni'r egwyddorion hyn?

Mae atal, amddiffyn ac ymyrraeth gynnar yn parhau'n flaenoriaeth i ni, ac rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod y cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu mor ddiogel â phosibl, a hynny trwy adolygu ac addasu ein gwasanaethau ymyrraeth yn barhaus.

Byddwn yn parhau â'n hymagwedd ragweithiol, integredig a chydweithredol at y gwasanaethau yr ydym yn eu darparu, a hynny trwy weithio'n agos gyda sefydliadau partner cyfredol, ynghyd â rhai newydd, i ddarparu negeseuon diogelwch wedi'u teilwra, gan sicrhau'r effaith gadarnhaol fwyaf ar ein cymunedau.

Mae ein ffocws ar gyfer atal yn canolbwyntio ar atal problemau rhag digwydd neu waethygu trwy sicrhau ein bod yn cynnal ymyrraeth gynnar a bod ein cymunedau yn cael cymaint o wybodaeth â phosibl.

Egwyddor Datblygu Cynaliadwy.

# Integreiddio

**Ystyried y modd y gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar ei amcanion, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.**

Beth yr ydym yn ei wneud i gyflawni'r egwyddorion hyn?

Rydym yn defnyddio dull integredig wrth ddatblygu ein Hamcanion Gwella a Llesiant, a hynny gan ein bod o'r farn y bydd gweithio mewn ffordd fwy integredig yn ein galluogi i ddatrys problemau mewn modd mwy effeithiol ac effeithlon.

Trwy ymgymryd â dull ar y cyd i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd, a thrwy gydweithredu â'n partneriaid a'n rhanddeiliaid, byddwn yn lleihau'r posibilrwydd o ddyblygu ymdrech ledled sefydliadau sector cyhoeddus ac, at hynny, yn rhannu adnoddau, dysg a gwybodaeth er budd ein cymunedau a chenedlaethau'r dyfodol.

**Egwyddor Datblygu Cynaliadwy.**

# Cydweithredu

**Acting in collaboration with any other person (or different parts of the body itself) that could help the body to meet its well-being objectives.**

## Beth yr ydym yn ei wneud i gyflawni'r egwyddorion hyn?

Mae cydweithredu â'n partneriaid yn allweddol bwysig i ni, y Gwasanaeth Tân ac Achub. Rydym yn cydweithredu â Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (GTAGC) a Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru (GTADC) mewn sawl ffordd, ac rydym wedi mabwysiadu dull "Cymru gyfan" mewn sawl maes.

Mae'r dull cydweithredol hwn hefyd wedi nodi'r dulliau mwyaf costeffeithiol ac effeithlon ledled y tri Gwasanaeth Tân ac Achub yn achos nifer o bynciau.

Rydym yn deall bod gweithio'n agos gyda'n partneriaid yn cynyddu effaith ein negeseuon diogelwch ar ein cymunedau ac yn darparu negeseuon diogelwch trwy ddull ar y cyd. Felly, byddwn yn parhau i adeiladu ar berthnasoedd cyfredol ac i chwilio am gyfleoedd newydd i feithrin partneriaethau newydd a rhai sydd eisoes yn bodoli er mwyn gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o'n hasedau.

Egwyddor Datblygu Cynaliadwy.

# Cyfranogi

**Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant a sicrhau bod y bobl hynny yn adlewyrchu amrywiaeth yr ardal y mae'r corff yn ei gwasanaethu.**

## Beth yr ydym yn ei wneud i gyflawni'r egwyddorion hyn?

Rydym wedi ymgynghori'n eang â'n rhanddeiliaid, ein sefydliadau partner a'r cyhoedd.

Byddwn yn ymgysylltu'n llawn â chymunedau lleol trwy ddigwyddiadau ac ymgyngoriadau, gan eu hannog i gymryd rhan yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Bydd hyn yn annog deialog ddwyffordd a hefyd yn sicrhau eu bod yn cael dweud eu dweud ynghylch y ffordd yr ydym yn cyflawni ein Hamcanion Gwella a Llesiant.

Mae annog y cyhoedd i gyfranogi a chymryd rhan yn y broses gwneud penderfyniadau yn bwysig iawn i ni.



www.tancgc.gov.uk

**Bydd ein Nodau Strategol a'n Hamcanion Gwella a Llesiant yn helpu i gyflawni'r saith Nod Llesiant mewn sawl ffordd, ac rydym wedi sicrhau bod y camau gweithredu ar gyfer ein Hamcanion Gwella a Llesiant wedi'u datblygu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.**

Bydd ein cyfraniad at gyflawni **Cymru Lewyrchus** yn cynnwys darparu lefel uwch o wybodaeth a chymorth gan bob un o'n cysylltiadau wrth i ni ymweld â phobl yn ein cymunedau i sicrhau eu bod yn ddiogel yn eu cartrefi. Byddwn hefyd yn cyfrannu at gyflawni **Cymru Lewyrchus** trwy adeiladu ar berthnasoedd sydd eisoes yn bodoli a chwilio am gyfleoedd newydd i sicrhau'r buddion gorau ar gyfer y gymuned, gwella ein cyfraniad at yr economi leol a lleihau'r costau i gymdeithas.

Bydd cyfraniadau at **Gymru Gydnerth** yn cael eu cyflawni trwy ystyried technoleg newydd ac arloesedd yn ein Gwasanaeth. Byddwn hefyd yn deall ein heffaith ar yr amgylchedd yn well er mwyn sicrhau gostyngiad yn ein hôl troed carbon, gan barhau i ddarparu gwasanaeth o safon uchel ar yr un pryd.

Byddwn yn cyflawni **Cymru Iachach** trwy gynyddu cysylltedd a digideiddio, a fydd yn helpu'r Gwasanaeth i ddarparu ein gwasanaeth brys a'n gwasanaeth diogelwch cymunedol, fel ei gilydd. Bydd hyn yn sicrhau y byddwn yn gallu darparu cyngor a chyflawni ein rhaglennu ymyrraeth er mwyn helpu unigolion i wella eu ffordd o fyw.

Byddwn yn cyflawni'r nod o gyfrannu at **Gymru o Gymunedau Cydlynus** trwy wella ein datrysiadau digidol a'n technolegau gwybodaeth a chyfathrebu blaengar, a hynny trwy gyfrannu at gynyddu cysylltedd a darparu gwasanaethau i'r cyhoedd.

Er mwyn helpu i greu **Cymru fwy Cyfartal**, byddwn yn blaenoriaethu ein hymyraethau a'u hanelu at yr unigolion hynny sydd fwyaf agored i niwed er mwyn gwella eu hamgylchiadau a rhoi cyngor iddynt i'w galluogi i wella eu ffordd o fyw.

Byddwn yn cyfrannu at **Gymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu** trwy barhau i annog a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn ardal ein Gwasanaeth. Lle bo hynny'n bosibl, byddwn yn

hyrwyddo mynediad at ein gwasanaethau trwy ddefnyddio'r Gymraeg, a hynny er mwyn sicrhau bod ein rhanddeiliaid yn gallu cyfathrebu â ni trwy eu hiaith ddewisol. Byddwn hefyd yn parhau i annog ein haelodau staff i ddefnyddio eu hiaith ddewisol yn y gweithle, ac yn darparu cyfleoedd i'r staff sy'n dymuno dysgu'r Gymraeg.

Byddwn yn dylanwadu ar y broses o gyflawni **Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang** trwy barhau i wneud newidiadau sylweddol i leihau cyfanswm y papur a ddefnyddir yn ein gweithgareddau, a hynny trwy annog pobl i gyflwyno gohebiaeth a dogfennau ar ffurf electronig.

Fel y nodir yn y Ddeddf, rhaid i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ddefnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy i gyfrannu cymaint â phosibl at gyflawni'r saith nod llesiant cenedlaethol, a hynny trwy fynd i'r afael ag anghenion llesiant penodol yr ardal. A ninnau'n bartner statudol, rydym wedi coleddu'r egwyddor hon ac wedi ymrwymo'n llwyr i gyfrannu i'r eithaf at gyflawni'r nodau llesiant, ac, ers hynny, rydym wedi gweithredu'r ethos o sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb danseilio gallu cenedlaethau'r dyfodol yn ein harferion busnes.

Mae arwyddocâd yr Amcanion sydd yng Nghynlluniau Llesiant pob un o'r chwe Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, yn cael ei adlewyrchu yn Amcanion Gwella a Llesiant ein Gwasanaeth, sy'n sicrhau bod

gweithio gyda'n partneriaid i ddarparu gwell canlyniadau ar gyfer ein cymunedau yn parhau i fod yn flaenoriaeth.

Yn ogystal ag ystyried Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wrth lunio'r cynllun hwn, rydym hefyd wedi cynnwys nifer o ffyrdd newydd o weithio wrth redeg y sefydliad o ddydd i ddydd. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn dylanwadu'n fawr ar 'edefyn aur' y Gwasanaeth. O'n cynlluniau datblygu unigol a'n strategaethau adrannol, i'n Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2021-2026, mae ethos y Ddeddf ym mlaen ein meddwl.

Boed hynny wrth i ni ffurfio partneriaethau newydd; mabwysiadu dulliau sganio'r gorwel yn rhan o'n proses o gynllunio ar gyfer y dyfodol; neu gynnwys fframwaith prosiectau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wrth i ni gyflawni ein prosiectau corfforaethol ein hunain, gallwch fod yn sicr y bydd anghenion y presennol yn cael eu diwallu, a hynny heb beryglu cenedlaethau'r dyfodol.

# Ein Perfformiad

**Yn ystod y degawd diwethaf, a thrwy Gynllunio ar gyfer Gwellant a Lleihau Risgiau, rydym wedi gweld gostyngiad sylweddol yn nifer y digwyddiadau yr ydym yn ymateb iddynt, yn ogystal â gwell canlyniadau ar gyfer y rheiny yr effeithir arnynt a'r cymunedau lle maent yn digwydd.**

Mae'r tabl yn dangos y gostyngiad canrannol yn nifer y digwyddiadau, anafiadau a marwolaethau yn ystod y deng mlynedd ddiwethaf, gan roi darlun clir o lwyddiant.

| | 2019-20 Gwirioneddol | Cyfartaledd 2010-11 i 2014-15 | Cyfartaledd 2015-16 i 2019-20 | Newid canrannol cyfartalog 2010-11 i 2019-20 | Targedau 2023-2024 |
|---|---|---|---|---|---|
| Yr Holl Danau | 3152 | 4156 | 3287 | -20.9% ↓ | -20% |
| Pob Galwad Diangen | 4627 | 4626 | 4789 | 3.5% ↑ | -10% |
| Bob Damwain Traffig Ffyrdd | 948 | 1065 | 975 | -8.4% ↓ | -10% |
| Pob Galwad Arall | 4484 | 3513 | 4625 | 31.6% ↑ | Dim targed wedi'i osod |
| Marwolaethau ac anafiadau a aeth i'r ysbyty o bob tân | 50 | 70 | 61 | -12.9% ↑ | -10% |
| Marwolaethau ac anafiadau a aeth i'r ysbyty o bob tân damweiniol | 45 | 46 | 55 | -19.1% ↑ | -10% |
| Canran y tanau mewn anheddau a gadwyd yn yr ystafell lle cynnodd y tân | 85% | 87.2% | 84.0% | -3.6% ↓ | Cynnal y targed o 87% os yw'n bosibl |

# Datblygu ein Cynllun Corfforaethol

**Mae'r Cynllun hwn yn amlinellu ein Nodau Strategol pum mlynedd (2020-2026) a'n Hamcanion Gwella a Llesiant ar gyfer 2021/22.**

Wrth ddatblygu ein Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2021-2026, rydym wedi ystyried y canlynol:

- Y gwelliannau a wnaed gennym o ran cyflawni Cynlluniau Corfforaethol blaenorol.
- Yr hyn y mae ein cymunedau yn ei ddweud wrthym.
- Yr hyn y mae ein staff yn ei ddweud wrthym.
- Yr adnoddau sydd ar gael i ni.
- Barn ein partneriaid, a phwysigrwydd cydweithredu.
- Gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Ein gofynion deddfwriaethol eraill, sy'n cynnwys:

- Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.
- Fframwaith Cenedlaethol y Gwasanaeth Tân ac Achub 2016.
- Y Pwyllgor Materion Cenedlaethol.
- Cydnerthedd Cenedlaethol.
- Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Cymru Gyfan.
- Safonau'r Gymraeg.



www.tancgc.gov.uk

# Ein Nodau Strategol a'n Hamcanion Gwella a Llesiant

## Mae ein Nodau Strategol (2020-2026) yn nodi ein cyfeiriad teithio ar gyfer y pum mlynedd nesaf.

Mae ein Gwasanaeth yn chwarae rôl hanfodol yn y gymuned, a datblygwyd ein nodau mewn ymgynghoriad â staff, cynrychiolwyr undebau llafur, uwch-swyddogion ac aelodau o'n Hawdurdod, ac maent yn rhoi ystyriaeth i ofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Bydd ein Nodau Strategol ar gyfer 2021-2026 yn sicrhau y byddwn yn parhau i ddarparu'r gwasanaethau gorau posibl i'n cymunedau. Bob blwyddyn, yn rhan o'n proses gynllunio, rydym hefyd yn datblygu Amcanion Gwella a Llesiant a gynlluniwyd i'n helpu i gyflawni ein Nodau Strategol. Dywed ein Hamcanion Gwella a Llesiant wrth ein staff, ein cymunedau a'n rhanddeiliaid pa fuddion y byddwn yn eu darparu ar eu cyfer yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.

Mae'r pedwar Nod Strategol, fel y'u hamlinellir isod, yn manylu ar ein hymrwymiad i gyflawni targedau heriol mewn amgylchedd cymdeithasol, gwleidyddol ac ariannol sy'n newid yn gyson.

**Mae ein Nodau Strategol fel a ganlyn:**

**Ein Pobl**
Byddwn yn sicrhau bod gan ein staff yr wybodaeth a'r sgiliau y mae arnynt eu hangen i ddarparu a datblygu ein gwasanaethau mewn modd diogel. Byddwn yn sicrhau nod staff yn gynrychioliadol o'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu, a bod y Gwasanaeth yn cefnogi eu Hiechyd a'u Llesiant.

**Ein Cymunedau**
Byddwn yn parhau i ymgysylltu â'n cymunedau, ac i'w haddysgu a'u cefnogi, er mwyn helpu i sicrhau bod eu dyfodol yn parhau'n ddiogel, yn hapus ac yn ffyniannus.

**Ein Hamgylchedd**
Byddwn yn gwella ein perfformiad amgylcheddol yn barhaus, yn ogystal â'r effaith y mae'r Gwasanaeth yn ei chael ar yr amgylchedd, a hynny trwy ein gweithgareddau gweithredol a'n dyletswyddau o ddydd i ddydd, fel ei gilydd.

**Ein Dysgu**
Byddwn yn archwilio ffyrdd newydd o weithio er mwyn gwella'r Gwasanaeth Tân trwy ddysgu gan ein hunain a chan eraill.

Nod Strategol Un

# Ein Pobl

**Byddwn yn sicrhau bod gan ein staff yr wybodaeth a'r sgiliau y mae arnynt eu hangen i ddarparu a datblygu ein gwasanaethau mewn modd diogel. Byddwn yn sicrhau bod y staff yn gynrychioliadol o'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu, a'u bod yn cael eu cefnogi gan y Gwasanaeth o ran eu hiechyd a'u llesiant.**

## Ble'r ydym ni 'nawr?

Y llynedd, roeddem wedi canolbwyntio ar ysbrydoli cydgynhyrchu, cynnwys pawb, a oedd yn ceisio sicrhau bod yr holl staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u grymuso, a bod eu hadborth a'u barn yn cael eu cydnabod, a bod rhywrai yn gweithredu ar yr adborth hwnnw. Yn dilyn llwyddiant hyn, rydym wedi dewis parhau â'r thema hon trwy edrych ar gydgynhyrchu, datblygu pawb. Bydd y dull hwn nid yn unig yn nodi ac yn manteisio i'r eithaf ar botensial ein gweithlu, byddwn hefyd yn ceisio deall barn ein staff am rwystrau sefydliadol yn well, ac yn annog dealltwriaeth ar y cyd o'r sefydliad ehangach.

Trwy waith yr adrannau Adnoddau Dynol, Datblygu Pobl a Chyflenwi Hyfforddiant, nod y Gwasanaeth yw recriwtio, datblygu a chadw gweithlu medrus iawn, llawn cymhelliant, sy'n cynrychioli ac yn hyrwyddo amrywiaeth y cymunedau a wasanaethwn. Mae darparu gweithle iach a diogel i'n staff yn hanfodol ar gyfer perfformiad effeithiol.

Rydym yn deall pwysigrwydd yr agenda iechyd a llesiant, ac yn cydnabod yr effaith y gall diwylliant iechyd, diogelwch a llesiant cadarnhaol ei chael ar y sefydliad. Gall hyrwyddo iechyd a llesiant atal straen a chreu amgylchedd gweithio cadarnhaol lle y gall unigolion a'r sefydliad ffynnu. Mae iechyd a llesiant da yn hybu ymgysylltiad y cyflogeion a pherfformiad y sefydliad. Felly, rydym am allu cefnogi ein staff i deimlo'n hapus ac yn iach yn y gwaith.

Mae'r Gwasanaeth yn parhau i gefnogi ein holl staff gweithredol i gynnal eu ffitrwydd er mwyn bodloni gofynion ffisiolegol a seicolegol y rôl, gan gefnogi staff â'u hiechyd a'u llesiant cyffredinol trwy amrywiaeth o gyngor, arweiniad a mentrau ymwybyddiaeth. Rydym wedi mabwysiadu'r Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer atal 'Trais yn erbyn Menywod, Camdriniaeth Ddomestig a Thrais Rhywiol', ac rydym yn rhan o'r Fframwaith hwn.

Rydym hefyd wedi gweithredu'r rhaglen 'Golau Glas' MIND, sydd wedi'i chynllunio'n arbennig ar gyfer gweithwyr y Gwasanaethau Brys. Mae'r rhaglen wedi'i llunio i gefnogi iechyd meddwl a llesiant yn y gweithle, gan ddarparu ymyrraeth gynnar a chymorth i'r rhai hynny a allai fod yn profi heriau.

## Ble'r ydym ni am fod?

Rydym am ddefnyddio'r hyn yr ydym wedi'i ddysgu o'n pandemig COVID-19 i archwilio dulliau newydd o weithio, gan gydnabod y bydd pwysau ar gyllidebau yn y dyfodol yn gwneud newid sefydliadol yn ofynnol. Bydd darganfod ffyrdd newydd o feddwl a gweithio yn sicrhau bod gan ein staff bopeth y mae arnynt ei angen i gyflawni rolau eu swyddi, a'u bod yn parhau i amddiffyn a darparu gwasanaeth i ddiogelu aelodau o'r cyhoedd a'n cymunedau.

Dim ond trwy gyflogi'r bobl iawn y mae modd gwella'n barhaus. Rydym am gyflogi gweithwyr sy'n gynrychioliadol o'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu, ac sydd wedi'u hyfforddi i'r safonau uchaf ym mhob agwedd ar y rôl y mae'n ofynnol iddynt ei chyflawni heddiw ac yn y dyfodol.

Rydym am wneud gwahaniaeth cadarnhaol o ran yr hyn yr ydym yn ei wneud a sut yr ydym yn ei wneud er mwyn sicrhau ein bod yn cael yr effaith fwyaf posibl, a hynny trwy sicrhau bod y ffordd yr ydym yn gweithredu yn rhoi rhyddid i'n gweithwyr wneud cyfraniad gwerthfawr at ddarparu'r Gwasanaeth yn llwyddiannus.

## Sut y byddwn yn cyflawni ein Nod Strategol?

# Byddwn yn: Ysbrydoli Cydgynhyrchu – datblygu pawb.

## Byddwn yn cyflawni hyn trwy wneud y canlynol:

- Cipio'r gwersi a ddysgwyd gan staff a rhanddeiliaid yn ystod y pandemig COVID-19 er mwyn llywio datblygiad sefydliadol;
- Sicrhau bod yr holl staff yn cael eu gwerthfawrogi a'u grymuso, a chydnabod bod gan bawb rywbeth i'w gyfrannu;
- Sicrhau bod yr holl weithwyr yn cyfrannu at ddarparu'r Gwasanaeth mewn modd llwyddiannus, gan ofalu eu bod wedi'u hyfforddi i'r safonau uchaf ac yn gallu cynnal eu cymhwysedd trwy ddatblygiad proffesiynol parhaus;
- Cydnabod bod gan staff gyfraniadau gwerthfawr i'w gwneud, a'u hannog i gymryd rhan yn y gwaith o gynllunio a darparu'r gwasanaethau yr ydym yn eu cynnig.

## Y modd y byddwn yn mesur y llwyddiant:

- Monitro nifer y staff sy'n ymgymryd â chyfleoedd hyfforddiant a datblygu ledled y Gwasanaeth er mwyn cynorthwyo â gwaith y Gwasanaeth o Gynllunio ar gyfer Olyniaeth;

- Monitro nifer y staff sy'n ceisio am gyfleoedd datblygu;
- Gwerthuso lefel yr ymgysylltu gan staff ledled y Gwasanaeth.

### Pryd:

**Bydd hyn yn cael ei gyflawni erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2021/22.**

## Byddwn yn: Cefnogi iechyd a llesiant ein pobl i'w helpu i deimlo'n hapus yn y gwaith ac i feithrin cydnerthedd personol.

### Byddwn yn cyflawni hyn trwy wneud y canlynol:

- Meithrin ein dealltwriaeth o sut beth yw "llesiant cadarnhaol" yn y sefydliad; gellid cyflawni hyn trwy archwilio'r trefniadau sydd ar waith ar hyn o bryd, a lle yr hoffai'r Gwasanaeth fod, ynghyd â nodi pa arfer gorau sy'n bodoli mewn sefydliadau tebyg;
- Datblygu rhaglen sy'n hyrwyddo iechyd a ffitrwydd ac sy'n helpu i feithrin cydnerthedd personol;
- Gweithredu rhaglen iechyd meddwl ragweithiol ledled y Gwasanaeth ar gyfer yr holl staff;
- Sefydlu Hyrwyddwyr Iechyd a Llesiant ac ymarferwyr TRIM sy'n gallu cynnig cymorth i gyd-weithwyr;

- Cynnig hyfforddiant ar iechyd a llesiant fel y gall rheolwyr nid yn unig adnabod yr arwyddion, ond i'w helpu i reoli eu timau â'r lefel gywir o gyswllt a chymorth ar gyfer pob unigolyn;
- Darparu'r sgiliau i Reolwyr reoli eu timau gan ystyried yr ymagwedd newydd at weithio hyblyg;
- Creu mynediad rhwydd at gynnwys trwy ein mewnrwyd fewnol a'n gwefan allanol.

## Y modd y byddwn yn mesur y llwyddiant:

- Monitro lefelau absenoldeb ledled y Gwasanaeth;
- Gwerthuso'r presenoldeb mewn digwyddiadau llesiant, ynghyd ag effeithiolrwydd y digwyddiadau hynny;
- Gwerthuso'r adborth gan staff er mwyn gwella cydnerthedd y sefydliad a'r staff yn barhaus.

## Pryd:

**Bydd hyn yn cael ei gyflawni erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2021/22.**

## Yr hyn y bydd yr uchod yn ei olygu, a pham y mae'n bwysig i chi:

Rydym am i'r staff feddu ar yr hyder a'r gofod i dyfu a datblygu, gan eu galluogi i gyflawni eu potensial a chyrraedd nodau eu gyrfaoedd.

Bydd ein dull gweithredu yn adnabod ac yn cynyddu potensial ein gweithlu trwy reoli a datblygu pobl yn effeithiol, gan gynnal diwylliant o berfformiad uchel, a pharhau i ddarparu Gwasanaeth proffesiynol a phriodol, gan wneud y defnydd mwyaf effeithiol o arian cyhoeddus.

Rydym am i'n staff fod yn iach ac yn hapus yn y gwaith; mae ein cofnodion yn nodi bod 40% o'n pobl wedi cael cyfnodau o salwch, yn dioddef o straen a gorbryder. Yn hanesyddol, rydym wedi darparu cymorth adweithiol i helpu ein staff i ddelio â straen, trawma neu salwch neu ddod drosto, a hynny trwy gynnig gwasanaeth cwnsela, Rhaglen Golau Glas MIND, TRIM, a chymorth gan Elusen y Diffoddwyr Tân. Fodd bynnag, rydym am allu adnabod arwyddion iechyd meddwl gwael ac atal problemau iechyd rhag codi, a hynny trwy ddarparu cymorth ac ymyrraeth gynnar.

Ein nod yw gwneud yr hyn sy'n bosibl i helpu ein staff i fyw bywydau hirach, iachach a chyflawn a lleihau ein lefelau salwch ar yr un pryd

# Egwyddor Datblygu Cynaliadwy

## Pum Ffordd o Weithio.

## Hirdymor

**Pwysigrwydd cydbwyso anghenion byrdymor â'r angen i ddiogelu'r gallu i fodloni anghenion hirdymor hefyd.**

Sut y mae'r Nod Strategol hwn yn cyfrannu at y Pum Ffordd o Weithio?

Rydym am sicrhau dull mwy cynhwysol ond lleol o gynllunio ar gyfer olyniaeth a chynllunio gweithlu effeithiol. Byddwn yn rhoi prosesau newydd ar waith a fydd yn galluogi ein rheolwyr i feithrin mwy o berchnogaeth a chyfrifoldeb dros eu pobl, gan ei gwneud yn bosibl i benderfyniadau mwy amserol gael eu gwneud ar lawr gwlad. Bydd hefyd yn galluogi prosesau mwy effeithiol o ran cynllunio ar gyfer olyniaeth ynghylch anghenion y Gwasanaeth a recriwtio.

# Atal

**Y modd y gall gweithredu i atal problemau rhag codi neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion.**

Sut y mae'r Nod Strategol hwn yn cyfrannu at y Pum Ffordd o Weithio?
Effective workforce planning will ensure that we have the right people recruited and trained, working in the right locations to provide only the highest standards of service to our communities. It will also ensure that our recruitment, development and working practices evolve to meet the communities changing needs.

# Integreiddio

**Ystyried y modd y gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar ei amcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.**

Sut y mae'r Nod Strategol hwn yn cyfrannu at y Pum Ffordd o Weithio?
Bydd strategaeth Ein Pobl yn sicrhau bod gennym nid yn unig y bobl iawn sydd â'r wybodaeth, y sgiliau a'r cymwyseddau iawn i ymgymryd â'u rolau yn y Gwasanaeth, ond eu bod hefyd yn deall ein sefyllfa fel aelod statudol o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, ynghyd â'n cyfraniad ehangach at lesiant ein cymunedau, y byddant wedi'u harfogi i gyfrannu atynt.

# Cydweithredu

**Gweithredu mewn cydweithrediad ag unrhyw unigolyn arall (neu â rhannau gwahanol o'r corff ei hun) a allai helpu'r corff i gyflawni ei amcanion llesiant.**

Sut y mae'r Nod Strategol hwn yn cyfrannu at y Pum Ffordd o Weithio?

Bydd cydweithredu'n fewnol rhwng swyddogaethau a meysydd ymateb, ynghyd â chydweithredu'n allanol ag asiantaethau partner, yn sicrhau bod ein pobl yn cael cyfleoedd i wneud cynnydd a datblygu yn eu gyrfaoedd, gan sicrhau eu bod yn fwy effeithlon wrth ddarparu gwasanaethau sy'n cyd-fynd ag anghenion ein cymunedau. Bydd hefyd yn ei gwneud yn bosibl i arfer da gael ei rannu ledled sefydliadau a sectorau, er mwyn sicrhau mai dim ond yr arferion gorau o ran pobl sy'n cael eu rhoi ar waith.

# Cyfranogi


**Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant a sicrhau bod y bobl hynny yn adlewyrchu amrywiaeth yr ardal y mae'r corff yn ei gwasanaethu.**

Sut y mae'r Nod Strategol hwn yn cyfrannu at y Pum Ffordd o Weithio?

Mae ymgysylltu â'r gweithlu, ein partneriaid ac asiantaethau eraill ynghylch y sgiliau a'r cymwyseddau sy'n ofynnol i wasanaethu ein cymunedau yn well yn rhan annatod o'n hadrannau hyfforddi a datblygu. Mae hefyd yn ffurfio rhan o strategaeth y bobl i sicrhau bod ein sgiliau yn esblygu i fodloni gofynion presennol y Gwasanaeth, yn ogystal â'i ofynion yn y dyfodol.

Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015

# Crynodeb o'r modd y bydd y Nod Strategol yn galluogi'r Gwasanaeth i gyflawni'r Amcanion Llesiant:




## Cymru Lewyrchus:

Bydd y Gwasanaeth yn parhau i goleddu'r egwyddor o ddatblygu staff newydd a staff cyfredol trwy amrywiaeth o raglenni prentisiaeth a datblygu.

Bydd hyn yn sicrhau eu bod yn cael y cyfleoedd dysgu a datblygu gorau, a bydd llawer o hyn yn drosglwyddadwy i weithleoedd eraill a'r cymunedau lle mae ein staff yn byw.

## Cymru Gydnerth:

Bydd parhau i gynnal bwlch sgiliau critigol risg isel yn sicrhau bod y staff gweithredol nid yn unig yn hyfforddi yn unol â Chanllawiau Cenedlaethol a'r Ddeddfwriaeth Iechyd a Diogelwch, ond eu bod hefyd yn gymwys ac yn effeithlon wrth gyflawni eu rolau ymateb.

Bydd hyn, yn ei dro, yn galluogi personél i ddarparu ymateb diogel ac effeithiol i'r cyhoedd ar adeg o angen, ac yn rhoi cyfle i ddinasyddion a chymunedau adfer mewn modd mwy effeithiol.

## Cymru Iachach:

Mae'r Gwasanaeth yn parhau i ymrwymo i ddarparu'r addysg, y cymorth a'r cyngor angenrheidiol i'r holl staff, er mwyn sicrhau eu bod nid yn unig yn cyrraedd y lefelau ffitrwydd angenrheidiol yn rhan o ofynion gweithredol y rôl, ond hefyd yn sicrhau ffordd fwy cytbwys o fyw o ran eu hiechyd a'u llesiant yn gyffredinol.

## Cymru sy'n Fwy Cyfartal:

Bydd gwell cyfathrebu mewnol a pharhau i werthuso cyrsiau yn nodi cyfleoedd ar gyfer datblygu ein pobl mewn modd mwy cyfannol i'w helpu i wireddu eu llawn botensial, ni waeth beth fo'u cefndir na'u hamgylchiadau.

## Cymru o Gymunedau Cydlynus:

Bydd sicrhau datblygiad cyfannol ar gyfer ein pobl trwy fentrau Llywodraeth Cymru sy'n hyrwyddo dysgu ar draws sectorau, yn ogystal â datblygiad a chyrsiau sy'n ystyried ein heffaith gyhoeddus fel Gwasanaeth, yn helpu i feithrin ymdeimlad o berthyn ac undod ymhlith ein cymunedau.

Nod Strategol Dau

# Ein Cymunedau

**Byddwn yn parhau i ymgysylltu â'n cymunedau, ac i'w haddysgu a'u cefnogi, er mwyn helpu i sicrhau eu bod yn parhau'n ddiogel, yn hapus ac yn ffyniannus.**

## Ble'r ydym ni 'nawr?

Rydym yn parhau i gynnig cyngor ar ddiogelwch rhag tân, addysg ac ymyraethau i'n cymunedau mewn amrywiaeth o ffyrdd gwahanol er mwyn helpu i leihau nifer a difrifoldeb y digwyddiadau brys yr ydym yn ymateb iddynt. Rydym wedi datblygu cymeriad sy'n canolbwyntio ar blant, sef "Sbarc", sy'n cefnogi'r gwaith o farchnata ein neges Diogelwch Cymunedol, yn ogystal â negeseuon ehangach.

Mae ein Gwasanaeth yn gweithio gydag amrywiaeth o bartneriaid i sicrhau ein bod yn cyflawni'r canlyniadau gorau posibl ar gyfer ein cymunedau. Yn ogystal â chynnig cyngor ar ddiogelwch rhag tân yn y cartref, rydym hefyd yn helpu i gadw busnesau'n ddiogel trwy ddarparu cyngor ar amddiffyn rhag tân, sy'n cyfrannu at gadw'r economi leol yn gynaliadwy.



Rydym yn cydnabod yr heriau y mae COVID-19 wedi'u cyflwyno i'n dull arferol o ymgysylltu; fodd bynnag, mae hyn wedi ein galluogi i gyflawni ein gwaith mewn modd gwahanol gan ddefnyddio technoleg a thrwy gynyddu ein gwaith partneriaeth.

## Ble'r ydym ni am fod?

Rydym am wneud gwahaniaeth cadarnhaol i'n cymunedau amrywiol, a chydnabod y gall hyn gael ei gyflawni trwy ddarparu'r addysg a'r ymyrraeth orau posibl ar faterion yn ymwneud â diogelwch rhag tân. Byddwn yn diweddaru ein negeseuon diogelwch yn rheolaidd er mwyn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol. Byddwn hefyd yn rhannu negeseuon gan ein partneriaid er mwyn helpu i hyrwyddo iechyd a llesiant yn y gymuned ehangach.

Gwyddom fod y perygl o dân yn ein cymunedau yn wahanol o le i le. Mae'n bwysig ein bod yn gallu addasu i ymateb i'r newidiadau hynny, gan sicrhau bod yr hyn yr ydym yn ei ddarparu yn y gymuned yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol. Felly, byddwn yn adolygu canlyniadau ein gwaith gyda'r rheiny yr effeithir arnynt, ac yn gweithio gyda nhw i barhau i wella ein proses ymgysylltu.

### Sut y byddwn yn cyflawni ein Nod Strategol?

## Byddwn yn: Canolbwyntio ar ein partneriaethau â rhanddeiliaid.

### Byddwn yn cyflawni hyn trwy wneud y canlynol:

- Gweithio gyda phartneriaid i nodi cyfleoedd ar gyfer darparu cymorth i'n gilydd i gyflawni amcanion llesiant cytunedig a sicrhau'r buddion mwyaf i'n cymunedau trwy gyfathrebu'n rheolaidd a rhannu negeseuon allweddol;
- Cytuno ar ganlyniadau clir pan fyddwn yn gweithio gyda phartneriaid er mwyn sicrhau bod y canlyniadau gorau yn cael eu cyflawni;
- Gwella ein trefniadau ar gyfer rhannu data â phartneriaid er mwyn gwella diogelwch a llesiant y bobl sy'n byw yn ein cymunedau;
- Gweithio gyda Busnes Cymru i helpu i nodi a defnyddio cyfleoedd caffael lleol gan Fusnesau Bach a Chanolig (BBaChau), lle bo hynny'n bosibl;
- Adolygu a gwerthuso canlyniadau ein partneriaethau gweithio ar y cyd er mwyn lleihau dyblygu a sicrhau ein bod yn cael effaith gadarnhaol a hirhoedlog ar ein cymunedau.

### Y modd y byddwn yn mesur y llwyddiant:

- Mynd ati i ofyn am adborth gan ein partneriaid er mwyn gwerthuso a yw ein negeseuon yn cyfrannu at welliannau o ran eu mentrau diogelwch cymunedol;
- Gwerthuso'r lefelau ymgysylltu â'n partneriaid, y negeseuon a rennir a'r rhyngweithiadau cadarnhaol sy'n digwydd;
- Cynnal gwerthusiadau o'n trefniadau ar gyfer rhannu data â phartneriaid er mwyn sicrhau eu bod yn helpu ein proses o weithio ar y cyd;
- Holi'r rheiny yr ydym yn cysylltu â nhw a yw ein hystod o waith cymunedol yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i'w bywydau a'u cymuned.

### Pryd:

**Bydd hyn yn cael ei gyflawni erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2021/22.**

## Byddwn yn: Gwella ein cyfathrebu â'n cymunedau a'n negeseuon allweddol.

### Byddwn yn cyflawni hyn trwy wneud y canlynol:

- Datblygu ffyrdd arloesol i addysgu ac ysbrydoli ein cymunedau tra bo cyfyngiadau COVID-19 yn dal ar waith;

- Annog gwirfoddolwyr i weithio gyda'r Gwasanaeth ledled ystod o feysydd er mwyn gwella ein darpariaeth a rhoi sgiliau a phrofiadau gwerthfawr iddynt;
- Annod staff i fod yn fwy ymwybodol o gyfleoedd i wirfoddoli, a hynny yn y Gwasanaeth a chyda'n partneriaid, fel ei gilydd;
- Annog cymunedau i ryngweithio'n fwy eang ac mewn modd mwy cadarnhaol â'n Gorsafoedd Tân er mwyn cynyddu proses gyfathrebu ddwyffordd;
- Defnyddio gwybodaeth am berfformiad a gwybodaeth o werthusiadau i hyrwyddo canlyniadau ein hymyriadau, ac i sicrhau ein bod yn darparu'r gwasanaethau y mae eu hangen ar ein cymunedau.

## Y modd y byddwn yn mesur y llwyddiant:

- Canolbwyntio ar gasglu adborth gan y rhai yr ydym yn ymgysylltu â nhw er mwyn deall effaith ein gwaith.
- Gofyn am adborth gan ein gwirfoddolwyr ar eu profiad yn y Gwasanaeth, a pharhau i wella ein proses o recriwtio ac ymgysylltu â gwirfoddolwyr.

## Pryd:

**Bydd hyn yn cael ei gyflawni erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2021/22.**

## Yr hyn y bydd yr uchod yn ei olygu, a pham y mae'n bwysig i chi:

Ni fu diogelwch ac iechyd ein cymunedau erioed yn fwy pwysig i ni. Mae'n hanfodol ein bod yn buddsoddi yn ein trefniadau atal ac amddiffyn er mwyn sicrhau cymdeithas ddiogel a chynaliadwy.

Rydym yn cydnabod na allwn gyflawni hyn ar ein pen ein hunain, a dyma pam y mae parhau i weithio mewn partneriaeth, ynghyd â'n gallu i addasu i risgiau newidiol mewn cymdeithas, yn gosod y Gwasanaeth wrth wraidd y broses o gadw ein busnesau a'n cymunedau yn ddiogel.



# Egwyddor Datblygu Cynaliadwy

## Pum Ffordd o Weithio.

## Hirdymor

**Pwysigrwydd cydbwyso anghenion byrdymor â'r angen i ddiogelu'r gallu i fodloni anghenion hirdymor hefyd.**

Sut y mae'r Nod Strategol hwn yn cyfrannu at y Pum Ffordd o Weithio?

Ni fu gallu'r Gwasanaeth i ymateb a darparu gwasanaethau atal ac amddiffyn rheng flaen effeithiol yn ein cymunedau erioed yn fwy pwysig, a dyma pam yr ydym yn parhau i roi ystyriaeth i risgiau newydd a gweithredu datrysiadau cynaliadwy gyda'n partneriaid ar gyfer llwyddiant mwy hirdymor.

# Atal

**Y modd y gall gweithredu i atal problemau rhag codi neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion.**

Sut y mae'r Nod Strategol hwn yn cyfrannu at y Pum Ffordd o Weithio?
Mae gan Wasanaethau Tân ac Achub hanes profedig o lwyddiant wrth ddefnyddio dulliau ataliol i roi gwybod i gymunedau am beryglon tân er mwyn lleihau nifer y tanau. Rydym yn parhau i adeiladu ar y llwyddiant hwn trwy ddarparu negeseuon diogelwch ar amrywiaeth ehangach o bynciau er mwyn cefnogi'r broses o weithio mewn partneriaeth â'r sector cyhoeddus ehangach.

# Integreiddio

**Ystyried y modd y gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar ei amcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.**

Sut y mae'r Nod Strategol hwn yn cyfrannu at y Pum Ffordd o Weithio?
Mae deall anghenion ein cymunedau yn allweddol i'r broses o ddarparu'r datrysiad mwyaf effeithiol i wella diogelwch, iechyd a llesiant yn ein cymunedau. Rydym wedi gwneud hyn, a byddwn yn parhau i wneud hyn, trwy weithio'n agos gyda phartneriaid ein Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a thrwy ymgysylltu'n ehangach â'r trydydd sector.

# Cydweithredu

**Gweithredu mewn cydweithrediad ag unrhyw unigolyn arall (neu â rhannau gwahanol o'r corff ei hun) a allai helpu'r corff i gyflawni ei amcanion llesiant.**

Sut y mae'r Nod Strategol hwn yn cyfrannu at y Pum Ffordd o Weithio?

Mae ein Gwasanaeth yn effeithiol iawn o ran creu a chefnogi cydweithredu ag amrywiaeth o bartneriaid, ac mae'r ffordd hon yn cefnogi'n gryf y galw am ddull seiliedig ar ganlyniadau ymhlith partneriaid sector cyhoeddus.

# Cyfranogi

**Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant a sicrhau bod y bobl hynny yn adlewyrchu amrywiaeth yr ardal y mae'r corff yn ei gwasanaethu.**

Sut y mae'r Nod Strategol hwn yn cyfrannu at y Pum Ffordd o Weithio?

Mae ein Gwasanaeth Tân ac Achub yn wasanaeth cyhoeddus sy'n cyflawni'n dda ac sy'n adlewyrchiad cadarnhaol o ba mor hyblyg yr ydym yn wyneb galwadau a newidiadau cymdeithasol cyflym.

Mae'r dull hwn wedi sicrhau bod gan y sefydliad y bobl iawn yn ymgysylltu yn y ffordd iawn â chymunedau ar bob cyfle.

Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015

# Crynodeb o'r modd y bydd y Nod Strategol yn galluogi'r Gwasanaeth i gyflawni'r Amcanion Llesiant:




## Cymru Lewyrchus:

Gwella diogelwch preswylwyr a busnesau trwy ymwybyddiaeth, addysg ac ymyrraeth, yn ogystal â nodi sut y gall cyfleoedd i leihau trosedd olygu buddion economaidd i boblogaeth y ward, ardaloedd preswyl, cymunedau, busnesau a thu hwnt.

## Cymru Gydnerth:

Bydd darparu amrywiaeth o drefniadau atal ac amddiffyn ochr yn ochr â'n partneriaid yn llunio cysylltiadau cynaliadwy yn y gymuned, gan gael effaith gadarnhaol ar fywydau pobl o ran cynyddu ymwybyddiaeth o'r risgiau o ganlyniad i danau yn y cartref, mewn busnesau ac yn amgylchedd ehangach y gymuned, gan felly greu cymuned fwy cydnerth sy'n llai dibynnol ar wasanaethau cyhoeddus.

## Cymru Iachach:

Bydd cyfathrebu negeseuon penodol a chyson ar gyfer pob grŵp oedran, ar y cyd â'n partneriaid, yn cyfrannu at wella iechyd y boblogaeth yn ein cymunedau, yn ogystal â galluogi ein busnesau i ffynnu.

## Cymru o Gymunedau Cydlynus:

Bydd gweithio gydag amrywiaeth o Bartneriaid yn ein galluogi i gyrraedd a chysylltu â holl ardaloedd ein cymunedau gan chwalu ffiniau i ardaloedd llai difreintiedig ar yr un pryd, a dileu'r stigma o enw a hanes gwal mewn perthynas â statws economaidd-gymdeithasol.

## Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang:

Bydd deall ein cymunedau a chael effaith gadarnhaol ar eu diogelwch a'u llesiant, ar y cyd â'n partneriaid, yn cyfrannu at amgylchedd cadarnhaol i bawb.

## Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu:

Mae'r Gwasanaeth yr ydym yn ei ddarparu ar gael yn ddwyieithog, ac rydym yn croesawu ac yn hyrwyddo ymgysylltiad yn Gymraeg.




www.tancgc.gov.uk

**Nod Strategol Tri**

# Ein Hamgylchedd

**Byddwn yn gwella ein perfformiad amgylcheddol yn barhaus, yn ogystal â'r effaith y mae'r Gwasanaeth yn ei chael ar yr amgylchedd, a hynny trwy ein gweithgareddau gweithredol a'n dyletswyddau o ddydd i ddydd, fel ei gilydd.**

## Ble'r ydym ni 'nawr?

Rydym ni, y Gwasanaeth, yn credu mai gwella ein heffaith ar yr amgylchedd yw'r peth iawn i'w wneud ar gyfer ein cymunedau, 'nawr ac yn y dyfodol.

Mae Strategaeth Amgylcheddol Pum Mlynedd y Gwasanaeth ar gyfer 2020-2025, y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth 2019-2022 a'r Polisi Amgylcheddol yn amlinellu prif egwyddorion, gynigion a chamau gweithredu y Gwasanaeth i leihau ei effaith ar yr amgylchedd.

Yn 2020, llwyddodd y Gwasanaeth i gynnal lefel uchaf (Lefel 5) Safon Rheoli Amgylcheddol y Ddraig Werdd am y seithfed flwyddyn, sy'n dangos ymrwymiad parhaus y Gwasanaeth i weithredu mewn modd amgylcheddol gyfrifol.

Mae amrywiaeth y planhigion a'r anifeiliaid (y fioamrywiaeth) sydd yn ardal ein Gwasanaeth yn bwysig i ni. Rydym wedi ymgymryd â gwaith i wella bioamrywiaeth yn rhai o'n lleoliadau, er enghraifft gosod blychau ystlumod a chreu lleiniau blodau gwyllt, a gwyddom ein bod yn gallu

lleihau'r effaith y mae tanau'n ei chael ar fioamrywiaeth pan fyddwn yn ymateb i ddigwyddiadau gweithredol trwy'r technegau a ddewisir ar y pryd, a'n bod yn llwyddo i wneud hynny.

Mae'r Gwasanaeth wedi buddsoddi mewn Cerbydau Isel Iawn eu Hallyriadau (ULEV) a'r seilwaith angenrheidiol i gefnogi hyn mewn nifer o safleoedd, a bydd yn parhau i wella cydbwysedd ULEV o gymharu â cherbydau sy'n defnyddio tanwydd traddodiadol.

Ar yn o bryd, mae'r Gwasanaeth yn adrodd am ei allyriadau Cwmpas 1 (yr holl allyriadau uniongyrchol) a Chwmpas 2 (allyriadau anuniongyrchol) yn yr Adroddiad Amgylcheddol Blynyddol, a byddwn yn parhau i wneud hyn.

Mae nifer o safleoedd y Gwasanaeth hefyd wedi elwa ar baneli ffotofoltäig er mwyn cynyddu ein defnydd o ynni adnewyddadwy.



## Ble’r ydym ni am fod?

Bwriadwn barhau i weithio tuag at leihau’r effaith y mae’r Gwasanaeth yn ei chael ar yr amgylchedd a chynyddu’r ffyrdd y gallwn wella ar hyn.

Byddwn yn cynnwys ymchwilio i allyriadau, eu monitro a’u lleihau, a hynny nid yn unig o ganlyniad i weithgareddau yn y Gwasanaeth, ond hefyd allyriadau sy’n gysylltiedig â chwmnïau sy’n ein cyflenwi.

Gelwir hyn yn adroddiad Cwmpas 3, ac mae’n fwy heriol i’w gyflawni. Fodd bynnag, bydd yn cynnig persbectif mwy clir o ran cyfanswm allyriadau carbon y Gwasanaeth.

## Sut y byddwn yn cyflawni ein Nod Strategol?

# Byddwn yn: Lleihau allyriadau carbon y Gwasanaeth.

## Byddwn yn cyflawni hyn trwy wneud y canlynol:

- Ystyried effaith ôl troed carbon y Gwasanaeth ym mhob prosiect a gweithgaredd o ddydd i ddydd;
- Annog pobl i newid eu hymddygiad a meithrin perchnogaeth ac atebolrwydd am y defnydd o ynni yn lleoliad pob Gorsaf. Darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth ar gadwraeth ynni, a hyrwyddo mentrau arbed ynni yn y gweithle a gartref;
- Defnyddio systemau adrodd a monitro y Gwasanaeth ar gyfer y Contract Rheoli Gwastraff i nodi meysydd i'w gwella;
- Archwilio'r dulliau gorau o fonitro ac adrodd ar allyriadau Cwmpas 3, gan leihau effeithiau negyddol nwyddau, gwasanaethau a gwaith yn ystod eu cylch oes ar yr un pryd;
- Ystyried ynni adnewyddadwy a gwelliannau cynaliadwy i'n hystad, lle bo hynny'n ymarferol, i wella ein seilwaith gwyrdd a'n storfa ynni;
- Cyflwyno'r arfer o werthuso cynaliadwyedd cyflenwyr yn ein dogfennau caffael, yn cynnwys Gwahoddiad i Dendro, a monitro allyriadau Cwmpas 3 unrhyw gyflenwyr newydd lle bo hynny'n bosibl.

## Y modd y byddwn yn mesur y llwyddiant:

- Gostyngiad o 2% yn ôl troed carbon y Gwasanaeth bob blwyddyn hyd at 2026;
- Cynnydd yn nifer y ffynonellau ynni adnewyddadwy a osodir yn lleoliadau ein Gwasanaeth;
- Gwerthuso ymgyrchoedd effeithlonrwydd ynni, a gwell canlyniadau yn cael eu hadlewyrchu mewn ystadegau;
- Y gallu i adrodd yn effeithiol ar allyriadau Cwmpas 3 ein sefydliad;
- Gwerthuso'r hyfforddiant ar ymwybyddiaeth o reoli gwastraff a roddir i'r staff er mwyn nodi a fu yna unrhyw newidiadau o ran ymddygiad.

## Pryd:

**Bydd hyn yn cael ei gyflawni erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2021/22.**

# Byddwn yn: Lleihau faint o ddŵr a ddefnyddir ledled Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, ac yn ymchwilio i gyfleoedd i arbed dŵr.

## Byddwn yn cyflawni hyn trwy wneud y canlynol:

- Gosod dyfeisiau arbed dŵr mewnol, er enghraifft teclynnau i reoli'r fflysh ar doiledau, lle bo hynny'n bosibl;

- Gosod darllenwyr mesuryddion dŵr awtomatig er mwyn ei gwneud yn bosibl i'r dŵr gael ei reoli'n effeithiol, a nodi unrhyw ollyngiadau;
- Meithrin ymwybyddiaeth o gadwraeth dŵr ledled y Gwasanaeth, gan hyrwyddo'r arfer o ailgylchu dŵr llwyd ar yr un pryd, a hynny i ddibenion amgen, gan gynnwys prosiectau bioamrywiaeth;
- Archwilio cyfleoedd i osod systemau cynaeafu dŵr glaw ac arbed dŵr ledled ardal ein Gwasanaeth er mwyn ailddefnyddio dŵr.

## Y modd y byddwn yn mesur y llwyddiant:

- Gostyngiad o 2% yn y ffigurau defnyddio dŵr trwy leihau'r defnydd o ddŵr lle bo hynny'n bosibl;
- Darlun mwy clir a chywir o'r modd y caiff dŵr ei ddefnyddio trwy ddarllenwyr mesuryddion dŵr awtomatig;
- Adrodd ar y cyfleoedd i gydweithredu â sefydliadau allanol, ynghyd â'r buddion i'r Gwasanaeth.

## Pryd:

**Bydd hyn yn cael ei gyflawni erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2021/22.**

## Yr hyn y bydd yr uchod yn ei olygu, a pham y mae'n bwysig i chi:

Bydd bod yn fwy ymwybodol ac atebol, gan leihau ein hallyriadau carbon a'n defnydd o ddŵr yn lleihau ôl troed carbon y Gwasanaeth ac yn ei helpu i ddod yn Wasanaeth Tân mwy cynaliadwy.

Mae gwneud defnydd o'r adnoddau sydd ar gael am ddim i ni, er enghraifft yr haul a'r glaw, yn ganolog i'n helpu i ddod yn fwy cynaliadwy. A ninnau'n Wasanaeth sy'n dibynnu'n fawr ar ddŵr ar gyfer ein gweithgarwch o ddydd i ddydd, gall cadwraeth dŵr ar ein safleoedd olygu buddion enfawr trwy helpu i leddfu'r pwysau ar y prif gyflenwad dŵr a lleihau'r llwyth ar y systemau draenio.

Gall gosod technoleg cadwraeth dŵr ostwng costau dŵr a helpu i leihau'r effaith a gawn ar yr amgylchedd.

# Egwyddor Datblygu Cynaliadwy

## Pum Ffordd o Weithio.

## Hirdymor

**Pwysigrwydd cydbwyso anghenion byrdymor â'r angen i ddiogelu'r gallu i fodloni anghenion hirdymor hefyd.**

### Sut y mae'r Nod Strategol hwn yn cyfrannu at y Pum Ffordd o Weithio?

Byddwn yn meithrin ymwybyddiaeth ymhlith y staff er mwyn newid y diwylliant o amgylch defnyddio dŵr ac ynni, a'r modd y bydd hyn yn lleihau'r allyriadau carbon a gynhyrchir ledled y Gwasanaeth. Byddwn yn gwella'r systemau cofnodi a monitro er mwyn gallu nodi meysydd i'w gwella yn y byrdymor.

Bydd y canlyniadau hirdymor yn cynnwys Gwasanaeth sy'n fwy amgylcheddol gyfrifol a chynaliadwy, ynghyd â system cofnodi a monitro fwy cywir.

# Atal

**Y modd y gall gweithredu i atal problemau rhag codi neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion.**

Sut y mae'r Nod Strategol hwn yn cyfrannu at y Pum Ffordd o Weithio?

Bydd defnyddio gwell systemau monitro yn amlygu'r meysydd lle y mae angen ffocysu ymyrraeth er mwyn lleihau'r defnydd o ynni.

Bydd lleihau ein defnydd cyffredinol o ynni ledled y Gwasanaeth yn gweithio tuag at ein hamcanion amgylcheddol a'r targedau cenedlaethol o leihau allyriadau carbon.

# Integreiddio

**Ystyried y modd y gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar ei amcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.**

Sut y mae'r Nod Strategol hwn yn cyfrannu at y Pum Ffordd o Weithio?

Mae lleihau a monitro'r defnydd gan ein cyfleustodau a'n fflyd yn cyd-fynd â Strategaeth Amgylcheddol ac amcanion y Gwasanaeth i leihau a pharau i ymchwilio i ynni adnewyddadwy amgen a phrosesau cynaliadwy.

# Cydweithredu

**Gweithredu mewn cydweithrediad ag unrhyw unigolyn arall (neu â rhannau gwahanol o'r corff ei hun) a allai helpu'r corff i gyflawni ei amcanion llesiant.**

Sut y mae'r Nod Strategol hwn yn cyfrannu at y Pum Ffordd o Weithio?

Gweithio gyda sefydliadau allanol a chyrff cyhoeddus i rannu arfer gorau a'r gwersi a ddysgir er mwyn galluogi dull cydlynus ar gyfer prosiectau posibl yn y dyfodol.

Mae lleihau a monitro ein defnydd gan ein cyfleustodau a'n fflyd yn cyd-fynd â'r hyn y mae Is-grwpiau'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn gweithio tuag ato ar hyn o bryd o ran lleihau allyriadau carbon a chyflenwadau o ynni adnewyddadwy amgen.

# Cyfranogi

**Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant a sicrhau bod y bobl hynny yn adlewyrchu amrywiaeth yr ardal y mae'r corff yn ei gwasanaethu.**

Sut y mae'r Nod Strategol hwn yn cyfrannu at y Pum Ffordd o Weithio?

Byddwn yn mynd ati i annog a chymryd rhan mewn fforymau cyhoeddus a grwpiau amgylcheddol lleol, ac yn annog staff mewnol i gymryd rhan er mwyn helpu i lunio a gwella ein mentrau a'n hamcanion gwyrdd.

Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015

# Crynodeb o'r modd y bydd y Nod Strategol yn galluogi'r Gwasanaeth i gyflawni'r Amcanion Llesiant:




## Cymru Lewyrchus:

Byddwn yn defnyddio 'technoleg werdd' newydd i wella a chreu adeiladau mwy cynaliadwy, ac i ymchwilio i fflyd o Gerbydau Isel Iawn eu Hallyriadau, a datblygu'r fflyd honno, er mwyn gwella ansawdd yr aer yn lleol a lleihau ôl troed carbon y Gwasanaeth Tân ac Achub.

Byddwn yn datblygu seilwaith ledled ein hystad i alluogi Cerbydau Trydan i gael eu gwefru mewn lleoliadau strategol. Bydd hyn yn helpu i gysylltu cymunedau o Gerbydau Isel Iawn eu Hallyriadau ac yn annog y defnydd o gerbydau Trydan a Hybrid yn lle cerbydau sy'n defnyddio tanwydd ffosil.

## Cymru Gydnerth:

Byddwn yn annog ac yn gwella'r amgylchedd naturiol a bioamrywiaeth ein safleoedd, lle bo hynny'n bosibl, er mwyn caniatáu ecosystem iach ar dir y Gwasanaeth Tân ac Achub a thir cyfagos. Byddwn yn gweithio gyda phartneriaethau lleol i feithrin ymwybyddiaeth o weithgarwch Gweithredol mewn ardaloedd sydd â gwerth uchel o ran bioamrywiaeth, gan alluogi'r dull rheoli gorau sydd ar gael.

Bydd dulliau arbed dŵr yn lleihau'r galw am yr adnodd naturiol hwn, yn ogystal â'r effaith ar allyriadau carbon ehangach y Gwasanaeth a'r diwydiant dŵr.

## Cymru Iachach:

Byddwn yn annog bioamrywiaeth ar leoliadau'r Gwasanaeth er mwyn gwella llesiant meddyliol a gwella ansawdd yr aer yn lleol, a hynny trwy leihau allyriadau carbon y Gwasanaeth trwy gyfrwng technoleg arloesol a chynaliadwy.

## Cymru o Gymunedau Cydlynus:

Byddwn yn cydweithredu â phartneriaethau lleol a'n Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i ganiatáu ar gyfer trefniant gweithio mwy cydlynus. Byddwn yn cydweithredu â'n partneriaid ar brosiectau amgylcheddol gynaliadwy posibl, er enghraifft nodi lleoliadau strategol ar gyfer pwyntiau gwefru er mwyn gwella ansawdd yr aer yn lleol.

## Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang:

Byddwn yn gweithio gyda chymunedau lleol i ddeall eu hanghenion amgylcheddol er mwyn cael effaith gadarnhaol ar eu llesiant. Byddwn yn ystyried effaith amgylcheddol pob agwedd ar ein gweithgareddau, ac yn sicrhau cyfraniad cadarnhaol ar gyfer y Gwasanaeth a'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu, fel ei gilydd.

Nod Strategol Pedwar

# Ein Dysgu

**Byddwn yn archwilio ffyrdd newydd o weithio er mwyn gwella'r Gwasanaeth Tân trwy ddysgu gan ein hunain a chan eraill.**

## Ble'r ydym ni 'nawr?

Mae dysgu sefydliadol yn allweddol i'r hyn yr ydym ni, y Gwasanaeth Tân ac Achub, yn ei wneud. Mae'n ein helpu i lunio ein harferion a'n gweithdrefnau yn y dyfodol, gweithredu ffyrdd mwy diogel o weithio ar gyfer ein staff gweithredol, a lleihau'r risg i'n cymunedau. Rydym am ddysgu rhagor gan yr amgylchedd yr ydym yn gweithredu ynddo, a hynny er mwyn addasu a newid i ddiwallu anghenion y Gwasanaeth yn y dyfodol.

Mae System Dysgu Gweithredol (OLS) newydd wedi cael ei datblygu, sy'n cynyddu gallu'r Gwasanaeth i nodi dysgu o bob ffynhonnell, yn fewnol ac yn allanol, gan weithredu arno wedi hynny trwy ddiwygio neu newid arferion neu weithdrefnau gweithredol.

Mae'r system newydd yn galluogi personél rheng flaen i gofnodi digwyddiadau o ddiddordeb, gyda phwyslais arbennig ar weithdrefnau newydd neu amgen a allai fod wedi cael eu defnyddio gan gyfrannu at ddatrys y digwyddiad yn llwyddiannus. Bydd yr OLS yn darparu sail dystiolaeth er mwyn sicrhau bod gwelliant parhaus yn cael ei gyflawni ledled sector Ymateb y sefydliad, gan sicrhau, ar yr un pryd, fod ein

staff yn cael eu diogelu rhag y risgiau cynyddol a newidiol y maent yn eu hwynebu.

Ar hyn o bryd, rydym yn defnyddio llawer o wahanol systemau meddalwedd TG i gefnogi'r hyn a wnawn fel Gwasanaeth Brys. Gan fod y systemau hyn yn cael eu defnyddio fel systemau 'annibynnol', a chan nad ydynt wedi'u cysylltu â systemau eraill, rydym yn orddibynnol ar brosesau papur yn ein hadrannau a'n swyddogaethau.



## Ble'r ydym ni am fod?

Ein nod yw cael ein cydnabod yn sefydliad arweiniol, sy'n datblygu systemau gweithredu a chyfarpar newydd, yn ogystal â symud ymlaen â chyflwyno'r broses o ddigideiddio lleoliadau tanau i gefnogi diogelwch diffoddwyr tân.

Rydym am ddefnyddio dysg Gwasanaethau Tân ac Achub eraill a sefydliadau partner, yn ogystal â defnyddio gwersi a ddysgwyd gan y llwyfan Dysgu Gweithredol Cenedlaethol (NOL) a'r llwyfan Dysgu Gweithredol ar y Cyd (JOL). Bydd hyn yn ein helpu i wireddi ein gweledigaeth o ddod yn arweinydd byd o ran ymateb brys a diogelwch cymunedol.

Mae'r Gwasanaeth am barhau i integreiddio systemau TG gymaint â phosibl er mwyn gwella ei allu i gydweithio. Rydym am wneud gwell defnydd o dechnoleg i leihau ein hôl troed carbon, lleihau costau, a gwella effeithiolrwydd cyffredinol y Gwasanaeth.

Mae'r Gwasanaeth am fanteisio ar y cyfleoedd sy'n lleihau'r risg i ddiffoddwyr tân a'r cymunedau, a hynny trwy'r defnydd o dechnoleg, ymchwil a datblygiad.

## Sut y byddwn yn cyflawni ein Nod Strategol?

# Byddwn yn: Datblygu ac ymgorffori seilwaith TG sy'n cefnogi ffyrdd newydd o weithio ac sy'n defnyddio technoleg i leihau'r perygl i ddiffoddwyr tân trwy'r ffordd yr ydym yn cyflwyno gwybodaeth iddynt.

## Byddwn yn cyflawni hyn trwy wneud y canlynol:

- Parhau i ddatblygu systemau TG sy'n effeithlon, a chefnogi ffyrdd newydd o weithio;
- Gwella systemau cyfathrebu a mynediad at systemau, yn ogystal â'r ffordd yr ydym yn rheoli data gweithredol;
- Sicrhau mynediad rhwydd at yr wybodaeth gywir, gyda'r galedwedd a'r feddalwedd TG gywir;
- Parhau i addasu ein harferion a'n gweithdrefnau yn seiliedig ar ein dysgu sefydliadol.

## Y modd y byddwn yn mesur y llwyddiant:

- Gwerthuso'r broses o gyflwyno terfynellau cyfrifiadur newydd ym mhob Gorsaf Dân a phob peiriant;

- Gwerthuso’r gwelliannau a wneir i’r ffordd y mae data gweithredol a gwybodaeth am risgiau yn cael eu cyflwyno;
- Gwerthuso pa mor dda y mae TG yn cefnogi dulliau gweithio o bell;
- Gwerthuso’r ffordd yr ydym yn addasu i arferion a gweithdrefnau trwy’r gwersi a ddysgwyd gan ffynonellau mewnol ac allanol.

### Pryd:

**Bydd hyn yn cael ei gyflawni erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2021/22.**

## Byddwn yn: Parhau i ymgorffori fforwm syniadau sy’n archwilio syniadau ac awgrymiadau gan y staff; gan roi iddynt lais i lywio’r Gwasanaeth.

### Byddwn yn cyflawni hyn trwy wneud y canlynol:

- Gan greu amgylchedd sy’n annog y staff i ddweud eu dweud ynghylch yr hyn y gellir ei wella, wedi’i gyd-drefnu gan y staff, ar gyfer y staff;
- Cynyddu ymgysylltiad staff ledled y Gwasanaeth trwy wrando ar eu barn, gan roi cyfle iddynt newid a llywio dyfodol ein Gwasanaeth;

- Annog ymgysylltiad ehangach y gweithlu i nodi ffyrdd newydd a gwell o weithio;
- Creu diwylliant o wrando sy'n dod yn fusnes arferol.

## Y modd y byddwn yn mesur y llwyddiant:

- Gwerthuso lefel y cynnwys ac ymgysylltu ymhlith y staff ledled ardal y Gwasanaeth;
- Monitro'r broses o weithredu syniadau ac awgrymiadau gan y staff;
- Hyrwyddo'r syniadau a ddarperir gan y staff i ddangos ein bod yn gwrando.

## Pryd:

**Bydd hyn yn cael ei gyflawni erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2021/22.**

## Yr hyn y bydd yr uchod yn ei olygu, a pham y mae'n bwysig i chi:

Bydd angen i'r ffordd yr ydym yn mynd ati i wneud ein gwaith newid er mwyn ymateb i anghenion ein cymunedau a staff. Bydd yr Amcanion Gwella a Llesiant hyn yn helpu i gefnogi hyn trwy wrando ar y rhai sy'n adnabod y Gwasanaeth orau, a thrwy ofalu bod TG yn cefnogi'r syniadau newydd sy'n dod i'r amlwg.

Bydd dysgu sefydliadol yn sicrhau bod y Gwasanaeth yn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd i weithio mewn modd effeithiol, gan weithredu ffyrdd mwy diogel o weithio ar gyfer ein staff gweithredol ar yr un pryd, a lleihau'r risg i'n cymunedau.

# Egwyddor Datblygu Cynaliadwy

# Pum Ffordd o Weithio.

## Hirdymor

**Pwysigrwydd cydbwyso anghenion byrdymor â'r angen i ddiogelu'r gallu i fodloni anghenion hirdymor hefyd.**

Sut y mae'r Nod Strategol hwn yn cyfrannu at y Pum Ffordd o Weithio?
Bydd dysgu sefydliadol yn ein helpu i lywio ein harferion yn y dyfodol, gweithredu ffyrdd mwy diogel o weithio ar gyfer ein staff gweithredol, a lleihau'r risg i'n cymunedau.

Bydd parhau i wneud gwell defnydd o Systemau TG yn lleihau ein hôl troed carbon, gan wella'r ffordd yr ydym yn gweithredu ar yr un pryd. Bydd hyn yn gofyn am gymorth o ran buddsoddiad a hyfforddiant, yn ogystal â newidiadau i'r ffordd yr ydym yn gweithio. Y canlyniad yn y tymor hirach fydd Gwasanaeth mwy clyfar a chynhyrchiol, a all atal, amddiffyn ac ymateb yn fwy effeithiol.

## Atal

**Y modd y gall gweithredu i atal problemau rhag codi neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion.**

Sut y mae'r Nod Strategol hwn yn cyfrannu at y Pum Ffordd o Weithio?
Mae defnyddio dysgu sefydliadol a Systemau TG i nodi tueddiadau yn ein helpu i wneud penderfyniadau mwy gwybodus ynghylch beth, ble a sut y dylid ffocysu ein gwaith. Mae'n galluogi'r Gwasanaeth i ymateb mewn modd mwy priodol i anghenion ein cymunedau, gan leihau'r risg i'n Diffoddwyr Tân rheng flaen ar yr un pryd.

## Integreiddio

**Ystyried y modd y gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar ei amcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.**

Sut y mae'r Nod Strategol hwn yn cyfrannu at y Pum Ffordd o Weithio?
Bydd defnyddio dysgu sefydliadol i ddatblygu prosesau a Systemau TG ledled y Gwasanaeth, a chynnwys hyn yn y ffordd yr ydym yn gweithio, yn gwella'r gwasanaeth yr ydym yn ei roi i'n cymunedau.

Bydd hefyd yn ein helpu i weithredu gyda Gwasanaethau Brys eraill a'n partneriaid i ddarparu dull mwy cydlynus ar gyfer y Cyhoedd.

# Cydweithredu

**Gweithredu mewn cydweithrediad ag unrhyw unigolyn arall (neu â rhannau gwahanol o'r corff ei hun) a allai helpu'r corff i gyflawni ei amcanion llesiant.**

Sut y mae'r Nod Strategol hwn yn cyfrannu at y Pum Ffordd o Weithio?
Bydd gweithio gyda sefydliadau partner a thrydydd partïon, gan rannu arfer gorau o ran sut i wneud pethau, yn ein helpu ni, ac eraill, i wella, gan sicrhau gwasanaeth o ansawdd uchel.

# Cyfranogi


**Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant a sicrhau bod y bobl hynny yn adlewyrchu amrywiaeth yr ardal y mae'r corff yn ei gwasanaethu.**

Sut y mae'r Nod Strategol hwn yn cyfrannu at y Pum Ffordd o Weithio?
Bydd creu fforymau sy'n rhoi mynediad i'n holl staff yn sicrhau bod ffyrdd o weithio yn y dyfodol yn cael eu llunio gan bawb yn y Gwasanaeth.

Bydd defnyddio'r doethineb cyfunol hwn, o'r tu mewn i'r sefydliad ac o'r tu allan iddo, yn sicrhau ein bod yn canolbwyntio ar anghenion ein pob a'n cyhoedd, fel ei gilydd.

Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015

# Crynodeb o'r modd y bydd y Nod Strategol yn galluogi'r Gwasanaeth i gyflawni'r Amcanion Llesiant:




## Cymru Lewyrchus:

Bydd ein rhaglen digideiddio yn ein galluogi i wella'r ffordd yr ydym yn darparu ein gwasanaethau, gan roi gwell gwybodaeth a data deallus i'n staff wrth iddynt hwy, yn eu tro, gefnogi ein cymunedau o ran materion atal, amddiffyn ac ymateb.

Byddwn hefyd yn mynd ati i chwilio am gyfarpar, arferion a phrosesau newydd er mwyn sicrhau'r lefelau diogelwch ac amddiffyniad gorau posibl ar gyfer ein personél gweithredol a'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu.

## Cymru Gydnerth:

Byddwn yn parhau i ystyried y defnydd o dechnoleg newydd ac arloesedd yn ein Gwasanaeth, lle bydd ein heffaith ar yr amgylchedd yn cael ei deall yn well a lle gellir gostwng ein hôl troed carbon. Trwy fanteisio i'r eithaf ar ein polisïau, ein strategaeth a'n cynllun rheoli asedau, a chynnwys partneriaid mewn opsiynau yn y dyfodol, byddwn yn cryfhau ein holl bartneriaid.

## Cymru sy'n Fwy Cyfartal:

Byddwn yn cyfrannu at Cymru sy'n Fwy Cyfartal trwy archwilio cyfleoedd ar gyfer datblygu rhagor ar ein pobl i'w helpu i wireddu eu llawn botensial, ni waeth beth fo'u cefndir na'u hamgylchiadau. Mae cynnydd o ran cysylltedd a digideiddio yn ein cynorthwyo i ddarparu ein gwasanaeth brys a'n gwasanaeth diogelwch cymunedol i ddinasyddion, gan sicrhau y gallwn ddarparu cyngor a chyflenwi ein rhaglenni ymyrraeth i gynorthwyo unigolion i wella eu ffordd o fyw.

## Cymru o Gymunedau Cydlynus:

Cyfrannir at Gymru o Gymunedau Cydlynus trwy ystyried a defnyddio cyfleusterau yn y gymuned a gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau a sectorau newydd, yn ogystal â rhai cyfredol. Bydd hyn oll yn helpu i feithrin ymdeimlad o berthyn ac undod ymhlith y cymunedau sydd â chysylltiadau da. Wrth ddatblygu prosiectau a phrosesau newydd, byddwn yn ymgysylltu ac yn ymgynghori â rhanddeiliaid a phartneriaid allweddol yn y Gwasanaethau Brys eraill ac mewn sectorau eraill, a bydd hyn yn cyfrannu at gymunedau mwy diogel a chysylltiedig.

## Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang:

Trwy ymchwil a datblygiad effeithiol, byddwn yn cyfrannu at sefydliad arloesol, cynhyrchiol, sy'n cydnabod cyfyngiadau'r amgylchedd byd eang ac yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithiol a chymesur.

# Rhagor o wybodaeth

**Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg – byddwn yn ymateb mewn modd cyfartal i'r ddwy iaith a byddwn yn ateb yn eich dewis iaith yn ddioed. Croesawn alwadau yn y Gymraeg a'r Saesneg.**

Mae ein gwefan yn cynnwys gwybodaeth fanylach am y meysydd y sonnir amdanynt yn y ddogfen hon. Yn Adran Perfformiad ein gwefan, ceir gwybodaeth am y canlynol:-

- Cynlluniau Corfforaethol
- Cynlluniau Gwella Blynyddol
- Adroddiadau Ymgynghori
- Adroddiadau Swyddfa Archwilio Cymru
- Adroddiadau ar Ddangosyddion Perfformiad Cymru
- Y Siarter Ymateb i Danau mewn Anheddau ar gyfer Cymru Gyfan

Rydym yn croesawu eich sylwadau neu awgrymiadau ar gyfer gwelliannau cynllunio yn y dyfodol.

I roi eich adborth, gallwch gysylltu â ni trwy ein gwefan, **www.tancgc.gov.uk**, ein ffonio ar **0370 6060699** neu ysgrifennu atom ym **Mhencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, Heol Llwyn Pisgwydd, Caerfyrddin, Sir Gâr SA31 1SP**.

Fel arall, gallwch anfon neges e-bost atom i **mail@mawwfire.gov.uk**

**Fersiynau Amgen**
Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael mewn fformatau hygyrch. Os hoffech gael yr wybodaeth hon mewn fformat neu iaith arall, gan gynnwys fersiwn sain, cysylltwch â ni ar: **0370 6060699** neu **e-bost: mail@mawwfire.gov.uk**